# Ysgol Gymraeg Rhyd  y Grug

**Mrs Alwen M Bowen**
Pennaeth
Headteacher

**Mrs Michelle Barry**
Dirprwy Bennaeth
Deputy Headteacher

**Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug**
**Aberfan**
**Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil**
**CF48 4NT**

Rhyd-y-grug.cymru
Ffôn / Telephone: 01685 351818

Annwyl Rieni /Warchodwyr,

Yn Ysgol Rhyd y Grug rydym yn ymdrechu i gynnig cwricwlwm wedi'i gyfoethogi i bob plentyn, gan gefnogi ein plant i ddod yn ddysgwyr hyderus, hapus a gydol oes.
Drwy ein safonau uchel o addysgu a dysgu ein nod yw cynnig cwricwlwm llawn wedi'i deilwra i bob plentyn sy'n cynnig yr holl gyfle i lwyddo.
Mae ein polisi gwahaniaethu yn elfen allweddol o'n haddysgu a'n dysgu. Fel ysgol gyfan, rydym wedi diwygio'r polisi hwn yn ddiweddar.  Isod ceir amlinelliad byr o'n polisi diwygiedig.

Mae'n bwysig nodi nad yw gwahaniaethu yn golygu 'gwaith gwahanol' ond yn hytrach yn cyfeirio at yr amrywiaeth eang o adnoddau, arddulliau addysgu, gweithgareddau dosbarth a deunyddiau cefnogi y gellir eu defnyddio gan athrawon i helpu i wneud y cwricwlwm yn hygyrch ac yn caniatáu i ddysgwyr i dyfu, dysgu ac i lwyddo.

<u>Llwybrau gwahaniaethu Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug:</u>

Llwybr **Anelu am y Sêr** - lefel isel o her unigol, o bosibl gyda chymorth gan yr athro/wes dosbarth

Llwybr **Dysgu Cyfforddus -** her ymestynnol ar lefel addas i ddysgwyr unigol

Llwybr **Herio fy Hunan** -  her uchel ar lefel cyrhaeddiad dysgwyr unigol

Bydd ein dysgwyr ieuengaf yn cael eu harwain i'w llwybr dysgu priodol gan eu hathrawon dosbarth a'u cynorthwywyr dosbarth. Wrth i'r plant symud drwy eu gyrfaoedd ysgol gydag aeddfedrwydd, hyder a chydag arweiniad gan eu hathrawon dosbarth, bydd plant yn gallu dewis eu llwybr dysgu, gan herio eu hunain fel dysgwyr ac fel unigolion.

Fel bob amser, rydym yn croesawu trafodaethau ac unrhyw gwestiynau sydd gennych, os hoffech drafod y cynllun newydd hwn neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.
Mrs Barry
Dirprwy Bennaeth

# Ysgol Gymraeg Rhyd  y Grug

Dear Parents/ Guardians,

At Ysgol Rhyd y Grug we strive to offer all children an enriched curriculum, supporting our children to become confident, happy and lifelong learners.
Through our high standards of teaching and learning we aim to offer all children access to a full and tailored curriculum offering all the opportunity to succeed.
Our differentiation policy is a key element of our teaching and learning. As a whole school we have recently revised this policy.  Below is a brief outline of our revised policy.

It is important to note that differentiation does not mean 'different work' but rather refers to the wide range of resources, teaching styles, classroom activities and support materials that can be used by teachers to help make the curriculum accessible and allow learners to grow, learn and succeed.

Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug differentiation pathways:

**Aiming for the Stars**  - low level of individual challenge, possibly requiring support from the class teacher

**Comfortable Learning Pathway** - a challenge at a suitable level for individual learners

**Challenging Myself** - a high challenge at the level of attainment of individual learners

Our youngest learners will be guided to their appropriate learning path by their class teachers and classroom assistants. As the children progress through their school careers with maturity, confidence and with guidance from their class teachers children will be able to choose their learning path, challenging themselves as learners and as individuals.

As always, we welcome discussions and any questions you have, if you would like to discuss this new scheme or you would like further information please do not hesitate to contact me.

Thank you for your ongoing support.

Mrs Barry
Deputy Headteacher